

Brwydyr rhwng Rob ac Alun eto.

Cafodd rês boblogaidd 10K Elim/Madoc ei chynnal unwaith eto eleni, fel rhan o Wyl y Felinheli. Bu'r tywydd yn garedig i'r rhedwyr a'r cefnogwyr i sicrhau fod pawb yn cael amser da (mewn mwy nac un ystyr!).

Yr ennillydd amlwg am y 5ed tro yn olynol oedd 'ceffyl blaen' Gogledd Cymru - Rob Samuel o glwb Rhedwyr Eryri, gyda Alun Vaughan ei gyd aelod clwb ac ein prif redwr lleol sydd wedi ennill y rês 6 gwaith o'r blaen yn y gorffennol (2002 – 2007) yn ei erlid yr holl ffordd.

Dyn arall o Eryri mewn cyflwr da ar hyn o bryd yw Dylan Wynn Jones o Drefor, a ddaeth yn 3ydd, ond yn ennill gwobr y 1af dros 40. Yr ennillydd categori nesaf i groesi'r llinell oedd Rhys Llewelyn James o Ddeiniolen (17oed) yn cael gwobr y bachgen dan 18 cyntaf, gyda Garn Owain Jones o Landegfan (15oed) yn dynn ar ei sodlau ac yn curo y cyntaf dros 50 yn y broses sef Arwel Lewis eto o Eryri.

Nid oedd y godwm a gafodd Eurwyn Edwards tra'n ymarfer ar y Wyddfa 10 diwrnod ynghynt yn ei ddal yn ol rhag ennill y 1af dros 60 mewn amser o dan 45 munud. Tra bod amser y 1af dros 70 – Emyr Davies (Eryri), 47m 32e yr un mor drawiadol.

Roedd cryfder clwb Rhedwyr Eryri yn y rês yn cael ei arddangos ymhellach gan y ferch 1af, sef Helen Teasdale gyda Tracey Llewellyn o glwb Cybi Striders yn cael ei gwthio i'r ail safle (y ddwy yn y categori dros 35). Ennillydd y merched dan 35 a thrydydd yn ras y merched oedd Elliw Haf o Gaernarfon, yn gorffen yn gryf a bron a dal Llewellyn ar y llinell derfyn. Danghosodd Chris Birch o Abergele Harriers nad oes raid i oed hŷn eich arafu gormod drwy ennill y categori merched dros 60 cyn i'r ferch gyntaf dros 50 (Kay Hatton – NWRR) ddod i mewn.

Yr ennillwyr lleol oedd Gwion Williams a oedd yn 13fed a Lauren Hassett oedd yn 10fed merch allan o'r 123 a wnaeth gystadlu. Cyfanswm y rhedwyr a orffenodd y cwrs oedd 277, yn cynnwys y dyn prysur 'Mr Gwyl Felinheli' - y cadeirydd Islwyn Owen a oedd yn gwisgo rhif 1 ac yn cymeryd rhan am y tro cyntaf yn hanes hŷr y rês. Da oedd gweld cymaint o dîm llwyddianus C.P. Felinheli yn cystadlu hefyd.

Dymunir y trefnwyr ddiolch yn fawr iawn i bawb roddodd gymorth ar y noson yn enwedig y 'marshals' o amgylch y cwrs ac yn ogystal modurdy Elim/Madoc am eu cefnogaeth unwaith eto.

Eilir Evans